COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 1/2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 19 RHAGFYR 2017, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

CE Smith PJ White HM Williams Cyng RE Young

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Randal Hemingway | Pennaeth Cyllid |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro) |

122. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

123. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 28 Tachwedd 2017 fel cofnod gwir a chywir.

124. DIWYGIO ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL - ARGYMHELLION Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR BYNCIAU 1

Cyflwynodd y Cynghorydd M Jones argymhellion Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 1 ar ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a gofynnodd iddynt gael eu hystyried mewn egwyddor hyd nes ceir canlyniad y Bil. Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gyflwyno nifer o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w hystyried fel rhan o weithredu Bil Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) a diwygio ADY.

Gofynnodd yr Arweinydd am gofnodi ei ddiolch i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 1 am y gwaith a wnaethpwyd wrth gynhyrchu argymhellion ar ddiwygio ADY. Dywedodd y byddai'r Cabinet yn ystyried yr argymhellion maes o law pan fyddai hefyd yn derbyn adroddiad ar ddiwygio ADY gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) Ystyried yr argymhellion ym mharagraff 4.2 yr adroddiad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 1 mewn egwyddor

hyd nes ceir canlyniad y Bil mewn perthynas ag ymateb yr Awdurdod i'r Bil ADY a Diwygio ADY;

(2) Cytuno i gyflwyno'r argymhellion ym mharagraff 4.3 yr adroddiad, gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 1 i Lywodraeth Cymru, i'w hystyried fel rhan o weithredu'r Bil Tribiwnlys ADY ac Addysg (Cymru) a Diwygio ADY.

125. CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD 'LLUNIO DYFODOL PEN-Y-BONT AR OGWR'

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet am ganlyniad ymgynghoriad 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' 2017 a oedd yn gofyn i ddinasyddion rannu eu barn ynghylch nifer o gynigion cyllidebol allweddol sy'n cael eu hystyried dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS ).

Eglurodd y gofynnwyd i'r ymatebwyr rannu eu barn ynghylch ystod o gynigion cyllidebol, a oedd yn cael eu hystyried rhwng 2018-19 a 2021-22, gan gynnwys: cynnydd arfaethedig i'r dreth gyngor; pa wasanaethau i'w diogelu a /neu eu torri yn hytrach na rhai eraill; buddsoddiadau a gwasanaethau masnachol, gwasanaethau rheoleiddio; gweinyddu swyddfeydd cefn; gwasanaethau hamdden a diwylliannol; gwasanaethau cymdeithasol ac addysg feithrin. Nododd fod trosolwg o'r ymgynghoriad ar y gyllideb, dogfennau ac arolygon wedi bod ar gael ar-lein drwy wefan y Cyngor rhwng 12 Hydref a 3 Rhagfyr 2017. Roedd yr ymgynghoriad wedi ei anelu at gyrraedd rhanddeiliaid allweddol oedd yn cynnwys dinasyddion, ysgolion, Aelodau'r Cabinet/Cynghorwyr, busnesau lleol, y trydydd sector, staff y cyngor, cynghorau tref a chymuned, sefydliadau partner, grwpiau cymunedol a chydraddoldeb, gwasanaethau ieuenctid/cyfryngau'r cyngor a lleol. Roedd yr ymgynghoriad yn cael ei gefnogi gan gynllun cyfathrebu a hyrwyddo llawn. Yn ogystal, roedd dulliau ymgysylltu yn cynnwys arolwg, a oedd ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled; digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, gweithdai aelodau etholedig; cyfarfodydd eraill / digwyddiadau rhwydweithio; dadleuon a sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol ac arolwg Panel Dinasyddion penodol.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 wrth y Cabinet y derbyniwyd 2619 o ymatebion ac roedd yr ymatebion a gafwyd yn cynrychioli cynnydd o 3.4% ar y llynedd. Dywedodd mai o'r pum dewis, yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd nad oedd pobl yn barod i gynyddu treth y cyngor er mwyn helpu i ddiogelu lefelau gwasanaeth cyfredol, gyda 25% o ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol. Dywedodd hefyd fod 17% o ymatebwyr yn barod i gynyddu treth y cyngor 5% ac yn ddemograffig, roedd mwy o ymatebwyr dros 65 yn barod i gynyddu'r dreth gyngor o 5% a bod y rhai dan 65 oed yn barod i'w chynyddu o 1% yn unig. Dywedodd wrth y Cabinet fod 21% o ymatebwyr yn dewis diogelu gofal pobl hŷn a gwasanaethau i bobl anabl trwy gynyddu'r dreth gyngor gan wybod y byddai'n rhaid i'r cyngor gwtogi ar wasanaethau eraill yn fwy difrifol i gyflawni hyn. Dilynwyd hyn yn agos gan 19% o'r ymatebwyr a oedd am ddiogelu ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol i blant. Yn seiliedig ar yr ymatebion o'r arolwg, er mwyn lleihau'r cynnydd i'r dreth gyngor a chadw gwasanaethau eraill, gwasanaethau diwylliannol yn cynnwys llyfrgelloedd, canolfannau celf a theatrau a gwasanaethau chwaraeon a hamdden oedd y ddau brif wasanaeth y mae'r cyhoedd yn fodlon eu cwtogi o 39% a 31% yn y drefn honno. Dywedodd fod 30% o'r cyfranogwyr hefyd yn dweud nad oeddent am dorri unrhyw wasanaethau. Tynnodd sylw hefyd at y canfyddiadau allweddol eraill sy'n codi o'r ymgynghoriad.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r staff a fu'n gweithio ar yr ymgynghoriad a chydnabu'r cyfraniad a wnaed gan drigolion wrth ymateb i'r ymgynghoriad, yn enwedig yr awydd a ddangoswyd am gwblhau'r arolwg ar-lein a oedd wedi gweld cynnydd o 56%. Dywedodd y byddai'r Cabinet yn ystyried yr ymatebion gan y trigolion wrth lunio cynigion y gyllideb. Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau ei siom o ran nifer yr

ymatebwyr a oedd wedi cefnogi toriadau i wasanaethau diwylliannol. Roedd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn falch o weld bod yr ymatebion yn ffafrio codi tâl ychwanegol am gaeau chwaraeon, a oedd yn bris bach i'w dalu i sicrhau bod y cyfleusterau hynny'n cael eu cynnal. Soniodd yr Arweinydd am lwyddiant yr ymgysylltu ynghylch y gyllideb gyda'r trigolion a'i bod yn dda nodi mai gwasanaethau oedd eu blaenoriaethau fel ag yr oeddent yn flaenoriaethau'r Cabinet.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad gyda phartïon sydd â diddordeb fel y manylwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori a atodir gyda'r adroddiad.

126. ESTYN CONTRACT Y SYSTEM GWYBODAETH ARIANNOL

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol fod y system wybodaeth ariannol bresennol, E5, yn darparu cyfres o fodiwlau cydrannau integredig llawn sy'n cynnwys cyfriflyfr cyffredinol, cyfrifon sy'n daladwy, cyfrifon a dderbynnir a gwybodaeth am reoli prynu i dros 500 o ddefnyddwyr ar draws y Cyngor. Dywedodd mai'r cyflenwr presennol, Advanced Business Software and Solutions Limited (ABS) yw unig berchennog a datblygwr system wybodaeth ariannol E5.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol hefyd fod y Cabinet ym mis Mai 2015 wedi cymeradwyo'r defnydd parhaus o system wybodaeth ariannol E5 ond yn fewnol ar ôl i'r trefniant a oedd yn cael ei gynnal ddod i ben ar 31 Mawrth 2016. Hefyd, cymeradwyodd ymestyn y drwydded a chymorth cynnal a chadw gydag ABS hyd at 31 Mawrth 2018. Dywedodd fod y symudiad o drefniant oedd yn cael ei gynnal i drefniant mewnol yn cyfrannu at arbedion o £200,000 o fewn y gyllideb feddalwedd o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Cyfreithiol ar gynnig i anfon gwahoddiad i dendro am ddarparu gwasanaethau gwybodaeth ariannol o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, i gynnwys, cyfriflyfr cyffredinol, cyfrifon sy'n daladwy, cyfrifon a dderbynnir a rheoli prynu. Bydd y broses yn defnyddio cystadleuaeth fach gan ddefnyddio Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron sydd â phedwar ar ddeg o gyflenwyr cofrestredig, gan gynnwys y cyflenwr presennol, ABS. Dywedodd y bydd y ffurflenni'n cael eu gwerthuso gan ddefnyddio rhaniad o 60/40 rhwng pris ac ansawdd. Cynigiwyd y bydd y Cyngor yn ymrwymo i gontract gyda'r cyflenwr llwyddiannus am dair blynedd gydag opsiwn o estyniad blwyddyn + blwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2018.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth gymeradwyo'r cynnig y byddai arbedion yn cael eu gwneud trwy ddod â'r system yn fewnol. Dywedodd yr Arweinydd fod dod â'r system yn fewnol wedi cynhyrchu arbedion o £200,000 y flwyddyn.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) Nodi'r bwriad i ail-dendro ar gyfer y System Gwybodaeth Ariannol;

(2) Awdurdodi Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth i ymrwymo i estyniad i'r contract am gyfnod o 12 mis gyda darparwr presennol y System Gwybodaeth Ariannol, os oes angen, i ganiatáu ar gyfer symud a chreu system newydd o'r fath, pan fydd y Contract cyfredol yn dod i ben ym mis Mawrth 2018.

## 127. CYNLLUN ADFYWIO PORTHCAWL

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Adfywio Porthcawl a dywedodd fod cynnig wedi'i dderbyn gan y teuluoedd Evans, i werthu eu budd prydlesol yng Ngham 1 - tir ym Maes Parcio Salt Lake - i'r Cyngor. Dywedodd wrth y Cabinet am delerau'r cynnig hwn, a nododd yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar weddill Cynllun Adfywio Porthcawl. Dywedodd wrth y Cabinet hefyd am y 'diwydrwydd dyladwy' a gyflawnwyd hyd yma, a'r mesurau pellach i'w rhoi ar waith i amddiffyn budd y cyhoedd.

Dywedodd fod perchnogion tir datblygu ym Mhorthcawl yn 2006 wedi cytuno i weithio ar y cyd, trwy ddwyn ynghyd y buddiannau rhydd-ddaliadol a phrydlesol a oedd yn troshaenu daliadau sylweddol o dir yn y dref. Y nod oedd dwyn ymlaen y tir ar werth, darparu derbynebau gwerthu i'r perchnogion i'w rhannu ar sail gytunedig yn amodol ar sicrhau'r prisiau isaf; a chyflwyno cyd-destun cynllunio clir i waredu safleoedd ar gyfer datblygiad gan drydydd parti. Yn dilyn mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol Adfywio Porthcawl yn 2007, neilltuwyd tir ar gyfer cartrefi newydd o fewn yr ardal gyffredinol, ynghyd â darpariaeth gymunedol yn cynnwys datblygiadau manwerthu a hamdden mawr, systemau ffyrdd newydd, tir a neilltuwyd ar gyfer darpariaeth iechyd, ac amwynderau cyhoeddus, gan gynnwys amddiffynfeydd môr newydd ar hyd Promenâd y Dwyrain a ffryntiad Sandy Bay.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod Cytundeb Perchnogion wedi'i lofnodi yn 2011 rhwng y Cyngor a'r Teuluoedd Evans, a'r egwyddor sylfaenol oedd yn sail i hynny oedd gwaredu tir a byddai'r holl elw net yn cael ei rannu mewn cyfran 60:40 o blaid y Cyngor (yn amodol ar gael y prisiau isafswm). Cam 1, yn cynnwys deunyddiau manwerthu, cymunedol, hamdden a thai, fyddai'r cam cyntaf ar gyfer gwaredu tir. Byddai Cam Dau y safle (preswyl yn bennaf) yn dilyn yn nes ymlaen.

Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau hefyd am hanes gwaredu'r tir. Yn 2014, yn dilyn methu â gwerthu'r safle i Morrisons (a chynigion i werthu'r safle yn 2010 i Tesco / Chelverton), gwnaed amryw o gynigion i gaffael buddiant y Cyngor. Gwrthodwyd y rhain gan nad oedd unrhyw amlygiad i'r farchnad (o ran sicrhau'r ystyriaeth orau) ac oherwydd nad oedd natur y cynnig naill ai'n bodloni'r gofyniad o ran yr isafswm pris nac o ran amcanion adfywio'r Cyngor. Yn 2015, cytunodd y partïon i adolygu'r cynigion datblygu oherwydd bod yr adwerthwyr bwyd mawr yn cilio o'r farchnad, a chomisiynwyd Prif Gynllun newydd i gefnogi'r Canllawiau Cynllunio Atodol presennol. Fodd bynnag, ni allai'r perchnogion gytuno ar ffurf derfynol y cynigion datblygu cyffredinol. Yn ystod haf 2016 aeth y trafodaethau ynghylch y Prif Gynllun i drafferthion, a chynigiodd y teuluoedd Evans wedyn fod y Cyngor yn ystyried prynu eu buddiant prydlesol o fewn Cam 1.

Dywedodd o fewn telerau'r Cytundeb Perchnogion fod y Cyngor wedi cytuno i ariannu "gwariant angenrheidiol" megis costau cynllunio, er mwyn galluogi'r cynllun datblygu i fwrw ymlaen, ar y sail y byddai'n cael ei ad-dalu o'r derbyniadau cyfalaf a fyddai'n cael eu cynhyrchu o werthiannau tir. Dywedodd nad oedd unrhyw dderbynebau wedi'u cynhyrchu eto ac y byddai'n ofynnol i'r teuluoedd Evans o fewn telerau'r Cytundeb Perchnogion ad-dalu'r Cyngor ar 5$^{ed}$ pen-blwydd y gwariant, gan gychwyn ar ddyddiad y Cytundeb Perchnogion. Ni dderbyniwyd unrhyw daliad eto gan nad yw'r mater hwn a materion masnachol cysylltiedig eto wedi'u cytuno.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y manteision a'r anfanteision o gaffael buddiant y teuluoedd Evans, ac ar yr amod y gellid cyflawni hyn ar delerau ffafriol i'r Cyngor, roedd teilyngdod yn yr opsiwn hwn gan y byddai'n galluogi i'r gwaith o adfywio'r safle fynd rhagddo. Dywedodd fod Asiant Eiddo annibynnol yn rhoi prisiad rhagarweiniol, er mwyn sefydlu'r amrediad prisiau o fewn yr hwn y gallai'r Cyngor

ystyried ei gaffael. Yn dilyn hyn, gwnaed cynnig dros dro gan y Cyngor ym mis Medi 2017, gyda dyddiad dirwyn i ben byr. Erbyn hyn roedd telerau i gaffael buddiant y teuluoedd Evans ar benawdau'r telerau a nodwyd wedi eu cytuno dros dro.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau hefyd, fel rhan o'r telerau ar gyfer prynu buddiant y teuluoedd Evans, y byddai angen diwygio'r Cytundeb Perchnogion. Amlinellodd y newidiadau allweddol angenrheidiol. Amlinellodd hefyd y diwydrwydd dyladwy a gyflawnwyd lle'r oedd y Cyngor wedi ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r camau y dylai eu cymryd i sicrhau ei fod wedi dilyn proses a rhagofalon dyladwy ac yn diogelu budd y cyhoedd. Penodwyd dau brisiwr annibynnol i ystyried a rhoi eu cyngor ar werth marchnad y tir. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y risgiau a'r materion allweddol a ystyriwyd, ynghyd â mesurau lliniaru, cyn ymrwymo i'r cytundeb.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y Cabinet fod y rhaglen gyfalaf yn cynnwys cynllun o'r enw 'Seilwaith Porthcawl' gyda chyllideb o £5.507 miliwn. Dywedodd mai bwriad y cynllun hwn a gymeradwywyd ym mis Medi 2012 oedd ariannu'r gwaith seilwaith, gyda'r gost yn cael ei thalu i ddechrau o fenthyca darbodus hyd nes y byddai'r Cyngor yn sicrhau'r cyfalaf oedd yn deillio o werthu'r tir. O'r herwydd, nid yw'r cynllun hwn yn cael ei gefnogi gan arian ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer cynllun arall heb warant o dderbyn cyfalaf yn deillio o hynny i ad-dalu unrhyw fenthyca. Roedd angen penderfyniad eto ar ddefnydd y tir yn y dyfodol. Argymhellwyd y dylid symud y cynllun hwn o'r rhaglen gyfalaf a'i ddisodli yn y dyfodol gyda chynnig diwygiedig a chostau a chyllid cysylltiedig. Cynigiwyd y byddai ad-dalu'r gwariant angenrheidiol o £330,000 yn cael ei drin fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu costau'r adnoddau yn y dyfodol y byddai eu hangen i ddod â'r safle ymlaen i'w waredu. Hysbysodd y Cabinet mai cost y trafodiad i'r Cyngor yw £3,330,000 ynghyd â TAW (y gellir ei adfer) o £666,000 a Threth Dir y Dreth Stamp o £178,800, sef cyfanswm o £4,174,800.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y Cabinet fod y telerau'n benodol iawn a hefyd yn gyfyngedig i amser a bod y trafodaethau'n seiliedig ar yr argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio wrth gymeradwyo'r cynnig, yn gobeithio y byddai'n arwain at ddatblygiad o ansawdd ar y safle a fyddai'n ategu'r datblygiadau yn Cozy Corner ac yn Adeilad Jennings. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod hon yn garreg filltir bwysig i ddarparu buddsoddiad ac adfywiad ym Mhorthcawl ac oherwydd bod hwn yn fuddsoddiad masnachol gan yr awdurdod roedd yn hanfodol iddo ddod ag elw ar y buddsoddiad. Dywedodd yr Arweinydd fod ei feddwl wedi cael ei dawelu gyda'r broses gadarn a gyflawnwyd gan swyddogion, gan gynnwys cael dau brisiad annibynnol o werth y tir yn y cynigion a diolchodd iddynt am eu rhan yn y trafodaethau.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog S151 a'r Swyddog Monitro, i:

(a) Gaffael buddiannau prif brydles ac isbrydles y teuluoedd Evans ym maes parcio Salt Lake, Porthcawl, am bris o £3,330,000, a'r telerau a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, ac

(b) Amrywio'r Cytundeb Perchnogion presennol dyddiedig 11 Mawrth 2011 rhwng y Cyngor a'r teuluoedd Evans, ar y telerau a amlinellir ym mharagraff 4.11 yr adroddiad.

(2) a chytuno i gyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig i'r Cyngor ei chymeradwyo, fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

128. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION: CANLYNIAD RHYBUDD CYHOEDDUS AR Y CYNNIG I WNEUD NEWIDIAD RHEOLEDIG I YSGOL GYNRADD COYCHURCH AR FFURF EHANGIAD

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim dros Addysg a Chefnogaeth Deuluol ar ganlyniad y Rhybudd Cyhoeddus ynghylch y cynnig i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Coychurch trwy ehangu'r ysgol yn barhaol o 1 Ionawr 2018, a gofynnodd i'r Cabinet gyflwyno Penderfyniad yn unol â'r cynnig.

Adroddodd fod y Cabinet yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf 2017 wedi cymeradwyo ymgynghoriad ar y cynnig i wneud newid rheoledig ar ffurf ehangiad a chynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 6 Medi ac 17 Hydref 2017 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol. Cyhoeddwyd rhybudd cyhoeddus ar 6 Tachwedd 2017 yn para 28 diwrnod, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod hwn.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

(1) Ystyried canlyniad y Rhybudd Cyhoeddus fel y manylir yn yr adroddiad;

(2) Cymeradwyo gweithredu'r cynnig i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Coychurch ar ffurf ehangiad a ddaw i rym o 1 Ionawr 2018.

129. POLISI ANGHENION GOFAL IECHYD

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd am gymeradwyaeth i'r Polisi Anghenion Gofal Iechyd.

Adroddodd o ganlyniad i Ganllawiau gan Lywodraeth Cymru, ei bod yn ofynnol i bob ysgol feithrin, gynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol yng Nghymru weithredu Polisi Anghenion Gofal Iechyd.

Gofynnodd yr Arweinydd a fydd cyrff llywodraethu ysgolion yn cael eu hysbysu fel y gallant weithredu'r polisi. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro dros Addysg a Chymorth Teuluol y byddai penaethiaid yn cael gwybod am weithredu'r polisi mewn cyfarfodydd traws-gyfnod a byddai angen i lywodraethwyr gefnogi'r polisi.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Anghenion Gofal Iechyd yn Atodiad A i'r adroddiad.

130. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim dros Addysg a Chefnogaeth Deuluol am y cynnydd a wnaed ynghylch y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) a gofynnodd am gymeradwyaeth ar gyfer cyhoeddi'r ddogfen yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Dywedodd fod Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 wedi dod yn gyfraith ar 4 Mawrth 2014 ac yn gosod gofyniad statudol ar

awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP). Dywedodd fod y WESP cyntaf wedi cael cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Mawrth 2014 ac ers hynny mae wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol cyn cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer WESP, 2017-2020. Mae hyn yn darparu cyswllt clir â gwaith y WESP i Safonau'r Gymraeg ac yn sbarduno awdurdodau lleol tuag at nod datganedig Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roedd y WESP bellach yn ddogfen fwy cryno gyda nodau ac amcanion clir iawn i gwrdd â'r saith canlyniad.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim dros Addysg a Chymorth Teuluol y Cabinet y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cymeradwyo pob cynllun erbyn diwedd Ionawr 2018.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio wrth gymeradwyo'r WESP am y targed uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r WESP newydd, ac awdurdodddd gyhoeddi'r WESP diwygiedig ar wefan BCBC o 1 Mehefin 2018.

131. MR RANDAL HEMINGWAY

The Leader announced that this would be the last meeting of Cabinet to be attended by Mr Randal Hemingway, Head of Finance and Section 151 Officer prior to him leaving the authority to take up a new position. He thanked Mr Hemingway on behalf of Cabinet for the advice and support he had given to the Cabinet and he left the authority with robust management processes in place. He wished him every success in his new position with Carmarthenshire County Council.

All members of Cabinet also thanked Mr Hemingway for his guidance and for the quality of advice he had given and for enabling projects such as the Porthcawl Regeneration Scheme come to fruition.

Mr Hemingway suitably responded and thanked the Cabinet for their support in his role.

132. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:45